

27 Ionawr 2010
Datganiad I'r Wasg

IEUENCTID CEREDIGION I AIL GYNNAU PLANT Y FFLAM

Ddeng mlynedd ar hugain wedi ei ryddhau, mae record hir Edward H Dafis, *Plant y Fflam* i wneud ail ymddangosiad dramatig yn 2010.

Plant y Fflam, a ryddhawyd yn 1980 sydd wedi ysbrydoli perfformiad ieuenctid Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni. Bydd chwedeg o bobl ifanc Cereidgion, rhwng 12 a 19 oed yn perfformio'r sioe newydd sbon, fydd yn cynnwys holl draciau albwm Edward H Dafis. Bydd y perfformiad, sydd hefyd yn dwyn y tetil *Plant y Fflam* yn un o'r digwyddiadau gyda'r hwyr yn Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, Ceredigion yn ddiweddarach eleni.

"Yn ei hanfod, stori dda yw *Plant y Fflam* sy'n cael ei gyfleu drwy gyfrwng deg can wych," medd Jeremy Turner, Cyfarwyddwr Artistig Cwmni Theatr Arad Goch. "Fe fu i mi ail-ddarganfod yr albwm beth amser yn ôl pan wnaeth Sain ryddhau casgliad o weithiau Edward H Dafis ar gryno ddisg. Dyna ddechrau meddwl bryd hynny bod deunydd sioe yno." Ers 20 mlynedd mae Cwmni Theatr Arad Goch wedi bod yn diddanu cynulleidfaoedd o blant a phobl ifanc ledled Cymru. Jeremy sy'n cyfarwyddo *Plant y Fflam* ac mae'r cyfle i gydweithio â phobl ifanc Ceredigion ar y prosiect yma wrth fodd y cwmni.

"Mae'r themau a'r stori yno'n barod ac mae Mari Rhian Owen o gwmni Arad Goch yn ysgrifennu sgript fydd yn galluogi i'r themau hynny ddatblygu. Mae'r stori am grwp o bobl ifanc sy'n troi eu cefnau ar gymdeithas gyfoes wag ac arwynebol er mwyn ceisio creu lle gwell a ffordd well o fyw.

Yn ymuno gyda thîm profiadol Jeremy fydd cyn enillydd Ysgoloriaeth Bryn Terfel, Rhys Taylor sydd hefyd yn hannu o Aberystwyth a'r coreograffydd, Lynne Hughes.

"Fe ffurfwyd Edward H Dafis, fel nifer o fandiau eraill o'r un cyfnod gan mai dyna oedd yr unig ffordd i ieuenctid gael llais," ategodd Jeremy. "Dwi ddim yn credu fod hyn mor wir bellach gan bod nifer o sefydliadau a fforymau sy'n gallugoi ieuenctid i ffurfio a lleisio barn. Ond dyw hynny ddim i ddweud nad yw'r themau sydd i'w gweld yn Plant y Fflam – sef creu cymdeithas well – yr un mor gyfoes heddiw ac yr oeddent dri deg o flynyddoedd yn ôl."

Un sy'n croesawu atgyfodiad *Plant y Fflam* yw Hefin Elis, sylfaenydd Edward H Dafis. Dywedodd, "Dwi'n edrych ymlaen at gael gweld sut y bydd yr ieuenctid yn ymdrîn â'r caneuon ac mae'n wych gweld y byddant yn cael eu canu o'r newydd dri deg o flynyddoedd wedi iddynt ymddangos am y tro cyntaf. Dwi'n edrych ymlaen at eu gweld mewn gwisg newydd."

Aelodau eraill Edward H Dafis oedd Dewi 'Pws' Morris, Charli Britton, John Griffiths ac yn ddiweddarach, Cleif Harpwood. Bu i'r grwp berfformio am y tro cyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Clwyd yn 1973.

Diwedd

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Non Tudur Williams ar nontudur@urdd.org neu 07968 446369

- Cydnabyddir cefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru i'r sioe hwn. Noddir y sioe gan James Jenkins Thomas

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant a ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Mae gan yr Urdd dros 50,000 o aelodau rhwng 8 a 25 oed.
- Sefydlwyd yr Urdd er mwyn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc Cymru fyw bywydau byrlymus trwy gyfrwng y Gymraeg a magu hyder a pharch tuag at ei gilydd a phobl eraill yn y byd.

Mae gweithgareddau'r Urdd yn cynnwys teithiau, chwaraeon, eisteddfod, cylchgronau, adrannau ac aelwydydd a gwersylloedd

- Arad Goch sy'n darparu theatr mewn addysg i ysgolion Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.
- Mae Arad Goch yn cyflwyno theatr i gynulleidfaoedd ifanc mewn theatrau a chanolfannau celfyddydol ledled Cymru a thu hwnt
- Gwnaeth 25,223 o blant, pobl ifanc ac oedolion o bob rhan o Gymru mynychu cynhyrchiad neu weithgaredd gan Arad Goch yn '08 – '09.
- Yn ogystal â 'Plant y Fflam' mae'r cwmni yn teithio dwy sioe i ysgolion cynradd ar hyn o bryd ac wrthi yn trefnu Gwyl Agor Drysau – Gwyl Theatr Rynglwadol Cymru i Gynulleidfaoedd Ifanc yn mis Mawrth 2010

27 January 2010

Press release

ICONIC ALBUM SPARKS YOUTH THEATRE PRODUCTION

Thirty years after its release, Edward H Dafis' iconic album, *Plant y Fflam* is to make a dramatic come- back in 2010.

Plant y Fflam, released in 1980 has inspired this year's Urdd youth theatre production. Sixty youngsters from Ceredigion, aged between 12 and 19 will perform a brand new show, which will include the music from the last album released by Edward H Dafis, one of the first Welsh-language rock groups. The production, also entitled *Plant y Fflam* will form part of the line-up of events at the Urdd National Eisteddfod in Ceredigion later this year.

"The album, *Plant y Fflam* is basically a story played out through the medium of ten fantastic tracks," said Jeremy Turner, Artistic Director of Aberystwyth-based, Arad Goch Theatre Company who will also be directing *Plant y Fflam*. "I rediscovered the album a few years ago when Sain released a CD box set of Edward H Dafis' five albums. I started thinking then that it would make a great show.

"The themes and storyline are there and Mari Rhian Owen at Arad Goch is devising a script which will see those themes developed. The story is about a gang of young people who turn their backs on the emptiness and superficiality of contemporary society to find or create a better place and a better way to live."

Joining Jeremy's experienced production team will be former Bryn Terfel Scholarship winner, Rhys Taylor who also hails from Aberystwyth and choreographer, Lynne Hughes.

"Edward H Dafis, like many other bands of the same era were formed because that was the only way youngsters could make their voices heard," continued Jeremy. "I don't think that is as true these days. There are organisations and forums that enable youngsters to have a voice. But that's not to say that the themes found in *Plant y Fflam* – that of creating a better society and better way of living – are not as relevant today as they were thirty years ago."

Hefin Elis, a founder member of Edward H Dafis has welcomed the resurrection of *Plant y Fflam*. He said, "I'm looking forward to experiencing how the youngsters work with the songs and it will be great to see and hear the songs being sung thirty years after they were released. I'm looking forward to seeing them in a new guise."

Edward H Dafis was seen as a groundbreaking band. It was one of the first Welsh-language groups to break away from the mainly acoustic sound of 1960s bands and could be regarded as a catalyst for the Welsh-language rock and pop scene which followed. The band, comprising of Dewi 'Pws' Morris, Charli Britton, Hefin Elis, John Griffiths and later Cleif Harpwood first performed at the National Eisteddfod in Dyffryn Clwyd in 1973.

Ends

Further information, contact Non Tudur Williams: nontudur@urdd.org or on 07968 446369

- Urdd Gobaith Cymru is Wales' Largest Youth Organisation
- The Urdd has given children and young people exciting opportunities for over 80 years
- Urdd Gobaith Cymru has over 51,000 members between 8 and 25 years old
- The aim of the Urdd is to give the children and young people of Wales an opportunity to live their lives through the medium of Welsh, developing confidence and respect for each other and the people of the world
- Urdd activities include tours and visits, sports, eisteddfod, magazines, adrannau and aelwydydd and residential centres